The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol
Temple Quay House
2 The Square
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau Cwsmeriaid: 0303 444 5000
e-bost: maenhirsolar@planninginspectorate.gov.uk

Trwy e-bost yn unig

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010156

Dyddiad: 26 Medi 2024

Annwyl David

**Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) – Adran 46 a Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 – Rheoliad 8**

**Cais arfaethedig gan Lightsource bp am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer prosiect Maen Hir Solar**

**Cydnabod derbyn gwybodaeth ynghylch y cais arfaethedig**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Medi 2024 a'r dogfennau a ganlyn:

- Hysbysiad Adran 48 Prosiect Maen Hir (yn Gymraeg a Saesneg)
- Llythyr Ymgynghori Adran 42 Prosiect Maen Hir (yn Gymraeg a Saesneg)
- Llythyr Ymgynghori Adran 44 Prosiect Maen Hir (yn Gymraeg a Saesneg)
- Datganiad AI yn amlinellu i ba raddau y defnyddiwyd AI yn yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol

Rwy'n cydnabod eich bod wedi hysbysu'r Arolygiaeth Gynllunio o'r cais arfaethedig am Orchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu at ddibenion adran 46 o Ddeddf Cynllunio 2008 ac wedi darparu'r wybodaeth ar gyfer ymgynghori o dan adran 42. Rhoddwyd y rhif cyfeirnod a ganlyn i'r cais arfaethedig, a byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn ei ddefnyddio mewn cyfathrebiadau dilynol:

EN010156

Rwyf hefyd yn cydnabod hysbysiad yn unol â Rheoliad 8(1)(b) o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 eich bod yn bwriadu darparu datganiad amgylcheddol mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig.

Fi fydd eich pwynt cyswllt ar gyfer y cais hwn – mae'r manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn.



disability confident EMPLOYER

Rôl yr Arolygiaeth Gynllunio yn y broses ymgeisio yw darparu cyngor annibynnol a diduedd am y gweithdrefnau dan sylw a chael trafodaethau agored gydag ymgeiswyr posibl, cyrff statudol ac eraill am brosesau a gofynion y gyfundrefn. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi'r wybodaeth gywir i ni am eich amserlen ac unrhyw newidiadau sy'n digwydd.

Byddwn yn cyhoeddi cyngor a roddwn i chi neu Bartïon eraill â Diddordeb ar ein gwefan ac, os yw'n berthnasol, yn cyfeirio partïon atoch chi fel Ymgeisydd. Rydym yn hapus i gwrdd ar gerrig milltir allweddol a/neu roi cyngor wrth i'r achos fynd rhagddo drwy'r cam Cyn Ymgeisio.

Unwaith y byddwch wedi paratoi dogfennau drafft rydym yn gallu darparu cyngor technegol, yn arbennig ar yr Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu  drafft, y Memorandwm Esboniadol, yr Adroddiad Ymgynghori ac unrhyw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd drafft. Efallai yr hoffech chi felly gynnwys hyn yn eich amserlen.

Yn y cyfamser, efallai yr hoffech roi sylw i'r canllawiau a'r deunydd deddfwriaeth a ddarperir ar ein gwefan gan gynnwys Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ffioedd) 2010 (fel y'i diwygiwyd) a'r canllawiau cysylltiedig, y bydd angen i chi gadw'n ofalus wrth sefydlu'r ffi gywir i gael ei gyflwyno yn ystod camau olynol y broses ymgeisio.

Wrth geisio bodloni eich rhwymedigaethau cyn ymgeisio dylech hefyd fod yn ymwybodol o'ch rhwymedigaeth o dan y ddeddfwriaeth diogelu data cyfredol i brosesu data personol yn deg ac yn gyfreithlon.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir

*Lily Robbins*

**pp Jake Stephens**
**Rheolwr Achos**

Gwnaethpwyd y penderfyniad hwn gan swyddogion ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol o dan bwerau dirprwyedig.

Nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.

Edrychwch ar ein Hysbysiad Preifatrwydd cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.



disability confident EMPLOYER